Cyngor Tref
Penmaenmawr
Town Council

Gwanwyn

Mawrth – Mai 2025

Yn y rhifyn yma:

- Neges y Maer
- Cymhorthfa Dydd Sadwrn
- Digwyddiadau i ddod
- Diweddariad y Cyngor
- Cynlluniau Amddiffyn Rhag Llifogydd


Pen i Bapur

"Sgubo i Ffwrdd ar Lanw'r Gwanwyn"

Darlun Wedi'i Baentio gan: Chrissy Buse

Neges y Maer

Fel Maer (yn y llun ar y dde uchaf), mae'n bleser gen i groesawu'n ffurfiol ein Clerc Tref newydd, Peter (yn y llun ar y dde isaf), a ddechreuodd ei ddyletswyddau gyda ni ym mis Rhagfyr. Mae Peter wedi addasu'n gyflym i'w rôl, ac mae'r Cyngor yn falch iawn o'r cynnydd mae wedi'i wneud hyd yma.



Bydd ein trigolion ni'n ymwybodol o'r heriau a wynebwyd gennym wrth recriwtio Clerc Tref a'r effaith ddilynol ar weithrediadau ein pentref. Mae cael y tîm priodol yn ei le yn hanfodol i weithredu'r Cyngor Tref yn effeithlon. Mae penodiad Peter yn gam sylweddol ymlaen i'n cymuned ni. Rydym yn rhagweld perthynas waith gynhyrchiol a fydd yn dod â gwelliannau y mae eu gwir angen i'r pentref. Rwy'n annog yr holl drigolion i fynychu ein cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor wythnosol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau parhaus ac i gymryd rhan weithredol.



Hoffwn hefyd estyn fy niolch i'r Cynghorwyr James Cook a Lisa Goodier am eu hymdrechion i drefnu'r Cymorthfeydd Dydd Sadwrn yn y llyfrgell gymunedol (edrychwch ar yr erthygl isod). Mae'r sesiynau yma wedi bod yn amhrisiadwy, gan alluogi'r trigolion i fynegi eu pryderon a'u problemau yn uniongyrchol i'r Cyngor Tref. Mae'r dull rhagweithiol yma o weithredu'n sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael ag anghenion ein cymuned ni'n effeithlon a bod yr holl brosiectau sy'n cael eu cynllunio'n cyd-fynd â buddiannau'r trigolion rydym yn eu gwasanaethu.

Cymhorthfa Dydd Sadwrn...

Ysgrifennwyd gan y Cynghorydd James Cook (yn y llun isod, ochr yn ochr â'r Cynghorydd Lisa Goodier):

Mae Cymhorthfa Dydd Sadwrn y Cyngor Tref yn y llyfrgell leol wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gan feithrin cysylltiadau cryfach rhwng y trigolion a'r cyngor. Yn cael eu cynnal bob pythefnos, mae'r sesiynau wedi dod yn gyfle poblogaidd yn gyflym iawn i'r trigolion lleol gwrdd â chynrychiolwyr y cyngor, trafod materion brys, a rhannu eu pryderon mewn lleoliad hamddenol, anffurfiol. Mae'r mynediad uniongyrchol yma wedi annog mwy o ymgysylltu â'r gymuned, gyda chynnydd cyson mewn presenoldeb bob wythnos.

Lansiwyd y fenter i sicrhau bod yr holl drigolion, dim ots beth yw eu hamserlenni, yn cael cyfle i ymgysylltu â llywodraeth leol. Mae'r llyfrgell, sydd ar safle canolog ac yn hawdd ei chyrraedd, wedi bod yn lleoliad delfrydol ar gyfer y trafodaethau hyn. Mae llawer sydd wedi mynychu wedi canmol y cyngor am sicrhau eu bod ar gael y tu allan i oriau swyddfa arferol, gan ei gwneud yn haws i rai a allai fod wedi cael anhawster lleisio eu pryderon yn y gorffennol.

Un o lwyddiannau mwyaf nodedig y Cymhorthfa Dydd Sadwrn yw ei gallu i ddylanwadu ar waith y cyngor. Drwy wrando ar adborth a mynd i'r afael ag anghenion y gymuned, mae'r cyngor wedi gallu cyfeirio ei ymdrechion mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'n uniongyrchol bryderon a dymuniadau'r bobl mae'n eu gwasanaethu. Boed yn gais am welliannau i barciau lleol, pryderon am ddiogelwch traffig, neu syniadau ar gyfer digwyddiadau cymunedol newydd, mae'r sesiynau yma wedi rhoi gwybodaeth amhrisiadwy sy'n sail i lunio dyfodol y dref.

Hefyd, mae'r rhyngweithio wyneb yn wyneb wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth a thryloywder rhwng y cyngor a'i drigolion, gan greu awyrgylch lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Wrth i'r sesiynau barhau i dyfu mewn poblogrwydd, mae'n amlwg bod y Gymhorthfa Dydd Sadwrn yn gam allweddol ymlaen i wneud y dref yn lle gwell i bawb fyw ynddi.



Am ragor o wybodaeth am newyddion a digwyddiadau Cyngor y Dref, ewch i wefan Cyngor Tref Penmaenmawr.

Sganiwch fi!

Cyfarfodydd y Cyngor:

Cynhelir y cyfarfodydd am 7pm ar nosweithiau Llun. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddod iddyn nhw wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Gymunedol Penmaenmawr, neu ar Zoom.

Mawrth 2025

3ydd Cyfarfod Llawn o'r Cyngor
10fed Pwyllgor Llywodraethu a Chyllid
17eg Pwyllgor Cynllunio ac Amgylchedd
24ain Pwyllgor Llesiant, Ymgysylltu a Digwyddiadau
31ain Cyfarfod Llawn o'r Cyngor

Ebrill 2025

7fed Pwyllgor Llywodraethu a Chyllid
14eg Pwyllgor Cynllunio ac Amgylchedd
28ain Pwyllgor Llesiant, Ymgysylltu a Digwyddiadau

Mai 2025

12fed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cytunir ar weddill y cyfarfodydd ym mis Mai yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Digwyddiadau i ddod

I fynychu cyfarfod ar Zoom, cyflwyno cais i siarad am eitem ar yr agenda, neu am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01492 623221, neu e-bostiwch admin@penmaenmawr.org

Edrychwch ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol y sefydliadau unigol am wybodaeth ychwanegol.

Dydd Sadwrn 1af Mawrth	Sgipiau Cymunedol – Cyllidir gan Gyngor Tref Penmaenmawr	09:00 nes eu bod yn llawn Maes Parcio Gladstone, Dwygyfylchi, LL34 6PS
Bob yn ail Dydd Llun (o 3ydd Mawrth ymlaen)	Bwytwyr Hapus	12:00 – 14:00 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Mercher 5ed Mawrth	Sefydliad y Merched Dwygyfylchi – Dathliad Dewi Sant, gyda'r Telynor Dylan Cernyw	19:00 Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, LL34 6AB
Bob Dydd Mercher (o 5ed Mawrth ymlaen)	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Grŵp Paentio	13:30 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Sadwrn 8fed Mawrth	Cymhorthfa Dydd Sadwrn	10:00 – 12:00 Llyfrgell Penmaenmawr, Ffordd Bangor, LL34 6DA
Dydd Mercher 19eg Mawrth	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Arddangosfa Artist Gwadd, Jan Gardner RCA	14:00 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Sadwrn 22ain Mawrth	Cymhorthfa Dydd Sadwrn	10:00 – 12:00 Llyfrgell Penmaenmawr, Ffordd Bangor, LL34 6DA
Dydd Mercher 2il Ebrill	Sefydliad y Merched Dwygyfylchi – Awdur Lleol, Juliet Greenwood	19:00 Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, LL34 6AB
Dydd Sadwrn 5ed Ebrill	Sgipiau Cymunedol – Cyllidir gan Gyngor Tref Penmaenmawr	09:00 nes eu bod yn llawn Maes Parcio Ffordd Fernbrook, Penmaenmawr
Dydd Mercher 9fed Ebrill	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Gweithdy Artist Gwadd, Ann Lewis RCA	14:00 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Mercher 16eg Ebrill	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Arddangosfa Artist Gwadd, Mike Linfold	14:00 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Sul 20fed Ebrill	Digwyddiad Pasg CTP	Manylion i ddilyn – cadwch lygad ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol
Dydd Sadwrn 3ydd Mai	Sgipiau Cymunedol – Cyllidir gan Gyngor Tref Penmaenmawr	09:00 nes eu bod yn llawn Maes Parcio Gladstone, Dwygyfylchi, LL34 6PS
Dydd Mercher 7fed Mai	Sefydliad y Merched Dwygyfylchi – Noson Ddiwylliannol Wcrainaidd	19:00 Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, LL34 6AB
Dydd Mercher 21ain Mai	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Arddangosfa Artist Gwadd, Bill Kneale	14:00 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE

Digwyddiadau i ddod

Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau



O fis Medi 2024 ymlaen, cynhelir pob cyfarfod llawn o'r cyngor tref a phwyllgorau yn Neuadd Gymunedol Penmaenmawr, Ffordd Conwy, LL34 6AB. Cynhelir cyfarfodydd ar nos Lun am 7yh.

Mae'r cyngor tref yn gobeithio y bydd y newid lleoliad hwn yn hwyluso presenoldeb yn well ac yn annog aelodau'r gymuned i gymryd rhan. Fel bob amser, mae pob cyfarfod cyngor a phwyllgor yn agored i'r cyhoedd - gall trigolion ofyn i siarad mewn unrhyw gyfarfod lle mae ganddynt ddiddordeb mewn eitem agenda. Os ydych chi am siarad ar eitem agenda, cysylltwch â Chlerc y Dref dim hwyrach na 5yh ar y diwrnod gwaith olaf cyn y cyfarfod perthnasol.

Sylwch, mae'r mannau parcio yn y ganolfan gymunedol yn gyfyngedig.

Digwyddiad Pasg 2025

Mae digwyddiad Pasg y Cyngor Tref wedi'i drefnu ar gyfer dydd Sul, 20fed Ebrill, ar y Promenâd. Ar ôl digwyddiad anhygoel y llynedd gyda phawb wedi mwynhau, y gobaith yw gwneud y dathliad eleni yn well byth.

Byddem wrth ein bodd pe baech chi'n ymuno yn yr helfa wyau Pasg yn ogystal â'r holl gemau a gweithgareddau hwyliog. Y llynedd, fe gymerodd mwy na 150 o drigolion ran yn y digwyddiad, a byddem wrth ein bodd yn eich gweld chi i gyd eto.

Fel y rhan fwyaf o'n digwyddiadau cymunedol, mae hwn am ddim. Gobeithio y cawn ni dywydd braf am hwyl gyda'n gilydd ar Bromenâd hardd Penmaenmawr.

Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi

Mae gan Gymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro weithdai ac arddangosfeydd gan artistiaid gwadd ardderchog y gwanwyn yma, gyda ffocws ar Baentio Tirweddau:

Ar ddydd Mercher 19eg Mawrth, bydd y Gymdeithas Gelf yn croesawu Jan Gardner RCA, a fydd yn trafod ei hagwedd liwgar at ddarlunio tirweddau. Ym mis Ebrill bydd yr arlunydd o Ynys Môn, Mike Linfold, cyn siaradwr gwadd yn y Gymdeithas Gelf, yn dychwelyd, a bydd Mike yn arddangos ei sgiliau paentio tirweddau gan ddefnyddio acrylig. Yn ogystal â dychweliad Mike Linfold, bydd y Gymdeithas Gelf hefyd yn cynnal gweithdy yn ystod mis Ebrill, dan arweiniad Ann Lewis RCA. Bydd Ann yn addysgu'r grefft o Baentio Toriad Leino. Bydd y gweithdy yma'n costio £10 i aelodau a £15 i bawb arall – nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly cofiwch gysylltu â Jonathan ar y manylion isod er mwyn cadw lle yn y gweithdy. Yn olaf, bydd yr artist o Gonwy, Bill Kneale, yn arddangos ei arddull argraffiadol o baentio ym mis Mai.

Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal ym Maen Alaw, Penmaenmawr, gan ddechrau am 2pm (y gweithdai yn dechrau am 1:30pm). I gael manylion am y Gymdeithas, ei chyfarfodydd, neu i gadw lle mewn gweithdy sydd i ddod, cysylltwch â Jonathan ar 01492 596374, neu ar e-bost jonathan-christopher@hotmail.com.

Os yw eich grŵp cymunedol yn dymuno cael ei ddigwyddiadau a'i weithgareddau wedi'u cynnwys yn Pen i Bapur, neu os oes gennych newyddion neu gyhoeddiad yr ydych yn dymuno ei rannu gyda'ch cymuned leol, byddem yn falch o glywed gennych! Cysylltwch â'r Cynghorydd Becca Snell trwy e-bost ar Becca.Snell@penmaenmawr.org am ragor o wybodaeth.

Diweddariad Neuadd Blwyf Dwygyfylchi

Mae'r Dirprwy Faer y Cynghorydd James Cook (yn y llun yn y gwaelod ar y dde) a'r Cynghorydd Malcolm Bleasdale wedi rhoi diweddariad am Neuadd Plwyf Sant Gwynan (yn y llun ar y top ar y dde):



Mae statws presennol Neuadd Blwyf Sant Gwynan yn bwnc o ddiddordeb sylweddol ac yn ddatblygiad parhaus. Mae'r Cyngor Tref yn sicrhau cynnydd gyda'r mater hwn, sydd wedi'i ddynodi'n flaenoriaeth allweddol i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chyllid. Mae'r trafodaethau ynghylch y neuadd yn cael eu rheoli ar hyn o bryd gan y timau cyfreithiol priodol, gan sicrhau bod yr holl brotocolau ac ystyriaethau angenrheidiol yn cael sylw. Mae'r dull gofalus hwn o weithredu'n adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i dryloywder a diwydrwydd dyladwy wrth i ni ddelio â'r cymhlethdodau dan sylw.

Yn y cyfamser, mae'r Cyngor Tref yn cymryd camau rhagweithiol i ymgysylltu â'r gymuned, gan gydnabod pwysigrwydd mewnbwn lleol wrth lunio dyfodol y neuadd gymunedol newydd. Mae cynlluniau ar droed ar gyfer digwyddiad ymgysylltu cymunedol i gasglu gwybodaeth a barn gan y trigolion am eu gweledigaeth ar gyfer y neuadd. Mae'r fenter hon yn tanlinellu ymroddiad y Cyngor i feithrin amgylchedd cydweithredol lle mae lleisiau cymunedol yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, gan arwain yn y pen draw at ddatblygu cyfleuster sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol.



Unwaith y bydd dyddiadau wedi'u dewis ar gyfer y digwyddiadau ymgynghori, byddem wrth ein bodd yn gweld cymaint o drigolion â phosibl yn bresennol. Bydd cael y Neuadd yn ôl mewn lleoliad canolog, o fewn cyrraedd hwylus ar droed a gyda safle bws gerllaw hefyd, yn gaffaeliad gwych i bob aelod o'n cymuned ni.

Maes Parcio Lôn Ddewi

Mae'r Dirprwy Faer y Cynghorydd James Cook wedi rhoi'r diweddariad canlynol am faes parcio Lôn Ddewi:

Mae'r datblygiadau diweddar ynghylch y maes parcio ar Lôn Ddewi wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol, gan fod y broses o drosglwyddo'r ased wedi'i chwblhau bellach. Mae'r trosglwyddo hwn yn foment hollbwysig, gan fod y tir yn swyddogol ym mherchnogaeth y Cyngor Tref. Roedd cwblhau'r broses hon yn hanfodol i ddiogelu'r ardal rhag datblygiad posibl, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ased cymunedol yn hytrach na chael ei hailddefnyddio mewn ffyrdd eraill. Mae'r mesur rhagweithiol hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor Tref i gadw mannau lleol sy'n gwasanaethu anghenion y trigolion.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd y Pwyllgor Llesiant, Ymgysylltu a Digwyddiadau yn arwain y gwaith o gasglu mewnbwn gan y gymuned ynglŷn â dyfodol y maes parcio, gan fynd ati i geisio barn y trigolion am eu gweledigaeth ar gyfer y gofod, gan gynnwys unrhyw welliannau cosmetig yr hoffent eu gweld yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r broses ymgysylltu hon wedi'i chynllunio i sicrhau ein bod yn dangos tystiolaeth o ddull cydweithredol o weithio, gan roi cyfle i'r gymuned fynegi ei dewisiadau a chyfrannu at gynllunio maes parcio sy'n cyd-fynd â'i hanghenion.

Toiledau Capelulo

Mae'r Dirprwy Faer y Cynghorydd James Cook wedi rhoi'r diweddariad canlynol am Doiledau Capelulo:

Diweddariad byr iawn ar statws presennol y toiledau yng Nghapelulo. Mae'r broses o drosglwyddo perchnogaeth yr ased yma wedi'i chwblhau bron, a disgwylir i'r cyfleuster gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y disgwylir i'r toiledau aros ar gau am gyfnod estynedig o amser. Bydd cau'r toiledau yn rhoi'r amser angenrheidiol i'r Cyngor Tref lunio strategaeth adnewyddu gynhwysfawr, a fydd yn cynnwys gwneud cais am arian grant i adfer y toiledau i gyflwr diogel ac ymarferol.

Cynlluniau Amddiffyn Rhag Llifogydd

Mae'r Maer y Cynghorydd Steven Consterdine wedi darparu erthygl yn ymdrin â'r cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd sydd wedi'u datgelu gan y Cyngor Sir yn ymwneud â Phenmaenmawr:

Mewn ymgais i ddiogelu'r gymuned rhag llifogydd yn y dyfodol, mae'r Cyngor Sir wedi datgelu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd cynhwysfawr ar gyfer ardal Ffordd Graiglwyd, Penmaenmawr. Trafodwyd y fenter mewn cyfarfod diweddar a fynychwyd gan ffigyrau lleol allweddol, gan gynnwys Maer y Dref y Cynghorydd Steven Consterdine a'r Cynghorydd Lara Cook (Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio ac Amgylchedd Cyngor Tref Penmaenmawr), ochr yn ochr ag Owen Conry, Rheolwr Risg Llifogydd ac Isadeiledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Clerc Tref Penmaenmawr Peter Davis, a'r Cynghorwyr Sir Anne McCaffrey a Cathy Augustine.

Roedd y cyfarfod, a gynhaliwyd yng Nghoed Pella, yn canolbwyntio ar yr angen dybryd am well amddiffynfeydd rhag llifogydd mewn ymateb i amledd cynyddol tywydd garw. Cyflwynodd Owen Conry gynlluniau manwl yn amlygu'r ardaloedd allweddol sydd mewn perygl a'r mesurau arfaethedig i liniaru difrod posibl. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys adeiladu rhwystrau newydd rhag llifogydd, cynllun gwasgaru dŵr gwell, atgyfnerthu'r strwythurau presennol, a gweithredu system rhyddhau araf sy'n sicrhau bod y llifddwr yn mynd i mewn i'r cyrsiau dŵr naturiol yn ddiogel, gan warchod ardaloedd preswyl ymhellach.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Steven Consterdine bwysigrwydd cynnwys y gymuned yn y prosiect, gan ddweud: "Mae'n hanfodol bod y trigolion yn ymwybodol o'r camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu eu cartrefi a'u busnesau. Rydym wedi gofyn am gyflwyniadau parhaus i'n diweddaru ni ac i egluro'r cynlluniau a'r amserlenni; dylem geisio cynnwys y trigolion yn y broses gynllunio bob amser ".

Adleisiodd y Cynghorydd Lara Cook y teimladau hyn, gan ychwanegu: "Mae'r cydweithredu rhwng swyddogion y Cyngor Sir a chynrychiolwyr lleol yn hanfodol. Drwy gydweithio, gallwn sicrhau bod ein hamddiffynfeydd ni rhag llifogydd yn gadarn ac yn effeithiol".

Canmolodd y Cynghorydd Anne McCaffrey y fenter, gan ddweud ei bod "yn gam sylweddol ymlaen yn ein hymdrechion ni i frwydro yn erbyn y llifogydd sydd wedi effeithio ar rai trigolion yn yr ardal hon ers amser maith. Rwyf wedi gwneud llawer o ymholiadau ar eu rhan ac yn falch o weld y gwaith yn mynd rhagddo. Bydd yr amddiffynfeydd arfaethedig rhag llifogydd nid yn unig yn amddiffyn ein cymuned ni ond hefyd yn rhoi tawelwch meddwl i'n trigolion".

Amlygodd y Cynghorydd Cathy Augustine fanteision hirdymor y prosiect: "Bydd buddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd nawr yn ein harbed ni rhag mwy o ddifrod a chostau cysylltiedig yn y dyfodol. Mae'n fesur angenrheidiol a doeth i wneud yn siŵr bod y gwaith yn cael ei gyflawni a bod y trigolion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn brydlon. Yn ogystal, rhaid i ni sicrhau bod y trigolion yn gwybod ble i fynd i gael rhagor o wybodaeth".

Mynegodd Clerc y Dref, a chwaraeodd ran ganolog wrth gydlynu'r cyfarfod, optimistiaeth am effaith y prosiect: "Rydym wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles ein cymuned ni," meddai.

Mae cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd y Cyngor Sir ar fin cael eu gweithredu fesul cam, gyda'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar yr ardaloedd mwyaf agored i niwed. Rydyn ni'n annog y trigolion i sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a chymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol i leisio eu pryderon a'u hawgrymiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd a sut gallwch chi gymryd rhan, ewch i wefan y Cyngor Sir (edrychwch ar waelod tudalen 7) neu gysylltu â'ch cynrychiolwyr lleol. Mae manylion cyswllt ar gyfer Cynrychiolwyr lleol y Cyngor Tref ar gael ar Wefan Cyngor Tref Penmaenmawr, yn ogystal â thudalen 7 y cylchlythyr yma.



Rhodd i fwytawyr hapus

Ym mis Chwefror 2025, cyflwynodd y Cynghorydd Judith Priestnall rodd o £79.84 (llun ar y chwith) i Bwytawyr Hapus gan Gyngor Tref Penmaenmawr, gan ymuno â nhw am ginio hyfryd o selsig a thatws stwnsh, gyda phwdin bara menyn a hufen iâ blasus i ddilyn. Dywedodd y Cynghorydd Priestnall bod y grŵp yma o bobl yn wych a chanmolodd y gwaith rhagorol mae Michelle a'i thîm yn ei wneud ar gyfer y gymuned.

Eich Cynghorwyr Tref

Sganiwch fi!

Am ragor o wybodaeth am newyddion a digwyddiadau Cyngor y Dref, ewch i wefan Cyngor Tref Penmaenmawr.



Cyng. Steven Consterdine
(Maer)
Capelulo
steven.consterdine@
penmaenmawr.org



Cyng. Sarah Williams
Capelulo
Sarah.Williams@
penmaenmawr.org



Cyng. Becca Snell
Capelulo
Becca.Snell@
penmaenmawr.org



Cyng. Malcolm Bleasdale
Capelulo
Malcolm.Bleasdale@
penmaenmawr.org



Cyng. James Cook
(Dirprwy Faer)
Capelulo
James.Cook@
penmaenmawr.org



Cyng. Lara Cook
Pant-yr-Afon
lara.cook@
penmaenmawr.org



Cyng. Colin Brooks Williams
Pant-yr-Afon
Colin.williams@
penmaenmawr.org



Cyng. Lisa Goodier
Pant-yr-Afon
lisa.goodier@
penmaenmawr.org



Cyng. Gavin Parry
Pant-yr-Afon
Gavin.Parry@
penmaenmawr.org



Cyng. Judith Priestnall
Pant-yr-Afon
judith.priestnall@
penmaenmawr.org

Cyng. Vacancy
Pant-yr-Afon
(Contact the office if you're interested in joining us!)



Cyng. Cathy Augustine
Penmaenan
cathy.augustine@
penmaenmawr.org



Cyng. Jack Sterriker Ellis
Penmaenan
Jack.Sterriker.Ellis@
penmaenmawr.org



Peter Davis
Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol
clerk@
penmaenmawr.org

Swydd wag
Dirprwy Glerc
admin@
penmaenmawr.org

Gwybodaeth Swyddfa:

Oriau: Llun – Gwener, 10yb – 2yp

Cyfeiriad: The Town Office & Chamber,
Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, Ffordd
Conwy, Penmaenmawr, Conwy, LL34 6AB

Ffôn: 01492 623221 **Gwefan:** www.penmaenmawr.org

Gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- ✓ Hamdden a Gwasanaethau Diwylliannol
- ✓ Gwastraff ac Ailgylchu
- ✓ Lechyd a Gofal Cymdeithasol
- ✓ Priffyrdd a Thrarnidiaeth
- ✓ Cynllunio
- ✓ Tai
- ✓ Addysg
- ✓ Trwyddedu
- ✓ Treth y Cyngor
- ✓ Cynllunio Brys

Ydych chi'n siŵr eich bod yn cysylltu â'r Cyngor cywir?

Dyma restr o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Sir, yn hytrach na'ch Cyngor Tref…

Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ewch i'w gwefan:

Sganiwch fi!

Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i ddarparu gwybodaeth gywir ac yn gyfredol, nid yw'r cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am wall neu hepgoriad mewn gwybodaeth am wasanaethau nad yw'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Pan fo angen, caiff copïau digidol o'r cylchlythyr hwn eu diweddaru'n fyw, felly, ar brydiau, efallai y bydd gwahaniaethau rhwng y copïau printiedig gwreiddiol a'r PDFs digidol sydd ar gael ar wefan y cyngor a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.